Adroddiad ar

Cylch Ti a Fi Llanddaniel

Ysgol Gynradd Parc Y Bont
Llanddaniel
Gaerwen
Ynys Môn
LL60 6HB

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Ti a Fi Llanddaniel

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Ti a Fi Llanddaniel |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Ti a Fi Llanddaniel |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Nid oes unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd |
| Person â gofal | Victoria Ellis |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 6 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Dydd Iau 9:00 – 11:30 a 12:00 tan 15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Nac ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 16 Mai 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolwg cyntaf y lleoliad yn dilyn ail gofrestriad |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/05/2024 |
| Cafodd y person â gofal ei phenodi i'w swydd bresennol pythefnos cyn yr arolwg. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ehangu'r cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant wrth iddynt chwarae

A2 Datblygu mwy o gyfleoedd i blant ddysgu am wahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth

A3 Ffurfioli prosesau rheoli perfformiad yr ymarferwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un plentyn yn cyrraedd yn hapus ac yn ymateb yn dda wrth i'r ymarferwyr eu cyfarch yn gadarnhaol. Mae'r rhai sydd yn ansicr yn setlo'n fuan iawn wedi iddynt dderbyn cysur a sicrwydd gan ymarferwyr. Mae'r plant yn gwybod bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn llawn. Er enghraifft, ymgynghorwyd â'r plant am ba adnoddau yr hoffent gael yn yr ardal allanol newydd a rhannwyd eu dymuniadau ar y 'wal ysbrydoliaeth'.

Mae plant yn derbyn gofal caredig ac ystyriol, sy'n cefnogi eu lles yn effeithiol. Maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol ac mae llawer ohonynt yn cyfathrebu'n hyderus. Er enghraifft, maent yn hapus i sgwrsio gydag ymwelwyr ac yn awyddus i siarad am eu dysgu a'u chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn symud yn hyderus rhwng ardaloedd a gweithgareddau ac yn dewis teganau ac adnoddau y maent yn eu mwynhau. Er enghraifft, maent yn ymgolli yn eu chwarae yn yr ardal tu allan wrth iddynt greu bwyd a diodydd yn y gegin fwd neu blannu hadau blodau haul gydag ymarferwr.

Mae bron pob un o'r plant yn egnïol ac yn frwdfrydig wrth iddynt fwynhau eu dysgu a'u chwarae. Er enghraifft, maent yn chwerthin ac yn cael tipyn o hwyl wrth ddynwared y symudiadau yn ystod sesiwn ganu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn anhapus, ac yn troi yn hyderus at ymarferwyr cyfarwydd am gysur a chymorth. Mae bron pob un yn rhyngweithio ag ymarferwyr ac â'i gilydd yn llwyddiannus. Maent yn dechrau deall pwysigrwydd bod yn garedig i'w gilydd a chynnig help os oes angen. Er enghraifft, mae plentyn yn pasio côt law i'w ffrind ac yn ei chynghori i'w gwisgo i gadw'n gynnes wrth chwarae tu allan. Mae llawer o blant yn barod i ddilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr, ac yn amlwg yn gyfarwydd gyda threfniadau'r sesiwn. Er enghraifft, pan mae ymarferwyr yn gofyn iddynt olchi eu dwylo cyn amser snac neu helpu i dacluso adnoddau, maent yn mynd ati'n syth.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibyniaeth yn dda, er enghraifft, maent yn golchi dwylo yn annibynnol cyn bwyta bwyd ac yn defnyddio'r toiledau gyda lefelau amrywiol o gymorth. Yn ogystal, mae bron pob un plentyn yn rhoi cynnig ar newid eu dillad a'u esgidiau yn llwyddiannus cyn mynd i chwarae tu allan. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amseroedd bwyta ac yn sgwrsio'n gymdeithasol â'i gilydd a'r staff am eu teuluoedd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo ac yn annog plant i dreulio amser yn chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Maent yn gweithredu eu polisïau a'u gweithdrefnau yn gyson ac yn hyderus yn eu rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn dilyn y polisi damweiniau yn fedrus ac yn diwallu anghenion plant ag alergeddau yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn defnyddio arferion hylendid da yn effeithiol. Maent yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, yn gwisgo dillad diogelwch ac yn delio â gofal personol, fel newid cewynnau, yn briodol. Mae ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i unrhyw bryderon ynghylch amddiffyn plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng wrth iddynt ymarfer driliau tân rheolaidd gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn anogol. Maent yn cyfathrebu â phlant mewn modd gwresog a chyfeillgar, gan greu awyrgylch tawel a hamddenol. Mae llawer o ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol i blant ac yn rhyngweithio'n dda â nhw yn ystod eu gweithgareddau a'u harferion chwarae. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn eistedd gyda phlant wrth iddynt edrych ar lyfrau ac yn chwarae wrth eu hochor tu allan gan fwydo geirfa ac iaith ac yn ymestyn y dysgu trwy ryngweithio'n effeithiol. bwrpasol. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac yn cynorthwyo plant yn dda yn unol â'u hanghenion unigol. Maent yn siarad â phlant yn sensitif ac yn eu cynorthwyo wrth iddynt rannu a chymryd eu tro gyda'u ffrindiau. Mae ymarferwyr yn canmol ac yn annog y plant yn rheolaidd, a hynny'n amlwg yn codi hunan-barch a hyder y plant. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth ganmol y plant am dacluso'r cotiau a'r esgidiau glaw cyn amser byrbryd.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol ar waith i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ymarferwyr yn cynllunio'n briodol gan ystyried eu hanghenion unigol ac maent yn yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gynnydd eu plentyn. Mae ymarferwyr yn olrhain arferion plant yn briodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfnod datblygu. Mae hyn yn eu helpu i gynllunio ystod o gyfleoedd dysgu a chwarae buddiol. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd cadarnhaol â rhieni a gofalwyr ac maent yn rhannu adborth yn â nhw pan caiff y plant eu casglu

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i ddiddordebau a syniadau'r plant ac yn cynllunio ystod o brofiadau sy'n llwyddo i ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth iddynt arbrofi creu cawl mae plant yn cael y cyfleoedd i ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau datrys problemau, eu medrau corfforol a'u creadigrwydd .

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plentyn ac maent yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn eu holi'n gelfydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Er enghraifft, wrth i blant sôn am nofio, mae ymarferydd yn holi ble a phryd maen nhw'n nofio, beth maent yn hoffi am nofio ac yna'n canmol y plant am rannu gwybodaeth yn dda.

Mae’r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau arsylwi priodol i asesu datblygiad y plant gan addasu’r ddarpariaeth  yn sgil y wybodaeth hon. Maent yn cefnogi’r dysgu yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant gan ymyrryd yn amserol  i atgyfnerthu’r dysgu. Fodd bynnag, ar adegau, mae’r ymarferwyr yn gor-arwain y dysgu sydd yn dueddol o lesteirio cyfleoedd i’r plant ddatblygu medrau wrth chwarae’n annibynnol.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a datrys problemau y plant ac yn modelu’r Gymraeg yn dda. Mae’r holl ymarferwyr yn dangos parch at waith y plant ac yn arddangos eu marciau o gwmpas yr ystafell, yn eu ffeiliau tystiolaeth, ac ar gyfryngau cymdeithasol diogel i’r plant ddathlu gyda’u teuluoedd.

Mae’r ddarpariaeth i gefnogi medrau rhifedd y plant yn briodol. Mae’r ymarferwyr yn annog y plant i gyfri ac i adnabod siapau dau ddimensiwn ac i drin arian wrth chwarae rôl yn y banc. Mae’r ymarferwyr yn darparu adnoddau i ddatblygu medrau digidol y plant. Er hyn, nid yw’r cyfleoedd i ddefnyddio offer digidol i ddatblygu gwahanol fedrau’r plant wedi eu datblygu’n llawn.

Mae’r ymarferwyr yn darparu nifer o gyfleoedd i’r plant datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn eu hannog i drosglwyddo gwrthrychau o un lle i’r llall gyda’r whilber ac ymarfer rholio, bownsio a dal peli. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel paratoi prydau dychmygus yn y gegin fwd, torri a gludo defnyddiau crefft gwahanol a gwisgo i fyny.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn datblygu eu chwilfrydedd am fyd natur drwy dyfu llysiau a blodau. Mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn canmol y plant yn gyson am rannu adnoddau a bod yn garedig ag eraill. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau a diwrnodau dathlu fel diwrnod Santes Dwynwen a chanu a rhigymau Cymreig yn ddyddiol. Fodd bynnag, prin yw’r cyfleoedd i blant ddysgu am fywydau a chredoau pobl o ddiwylliannau eraill.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae’r gwasanaeth wedi ei leoli o fewn yr ysgol gynradd. Mae’n gynnes, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda iawn. Mae’r fynedfa’n ddiogel ac mae’r drysau wedi’u cloi. Nid oes neb yn gallu cael mynediad oni bai fod ymarferwyr yn rhoi caniatâd iddynt ac yn agor y drws. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith hefyd ac mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel trwy gwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o’r amgylchedd i nodi a dileu unrhyw risgiau i'w diogelwch, lle bo modd. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o brosesau hylendid. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn lân ac yn defnyddio arferion priodol i reoli heintiau yn llwyddiannus er mwyn lleihau unrhyw risg i iechyd a diogelwch y plant.

Mae’r amgylchedd tu fewn yn groesawgar ac yn addas ar gyfer plant. Mae arweinwyr yn darparu ystafell olau a defnydd da o liwiau ag adnoddau naturiol. Mae ymarferwyr yn arddangos gwaith y plant yn ogystal â ffotograffau o aelodau o’u teulu agos, sy’n

cryfhau eu hymdeimlad o berthyn. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfle i blant symud yn rhydd mewn gofod eang. Mae adnoddau wedi eu storio ar lefel y plant, ond bach iawn y gwelwyd y plant yn mynd ati i ddewis beth oeddent eisiau o'r silffoedd, ac nid oedd adnoddau wedi ei rhoi allan i'w denu i chwarae.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei ddefnyddio mor aml ag y bo modd ac yn estyniad ar yr amgylchedd dysgu. Mae'r ardal tu allan wedi'i rannu'n ardaloedd ag ynddo adnoddau da i'r plant fedru archwilio a chwarae'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth yn cynnwys ardaloedd creadigol ar gyfer paentio a marcio ar furiau, yn ogystal â chegin fwd sydd yn denu'r rhan fwyaf o blant. Mae'r gegin yn cynnwys offer a llestri amrywiol a chafodd y plant gyfle i fynegi eu barn a dewis yr offer hynny. O ganlyniad, maent wrth eu bodd yn eu defnyddio. Mae'r lleoliad newydd gael dosbarth allanol sydd yn gartrefol a chysurus. Yma, mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae rôl, darllen stori neu ymlacio ar fagiau ffa mawr.

Mae gan y lleoliad ddodrefn ac adnoddau addas sy'n cefnogi medrau annibyniaeth y plant, er enghraifft, ceir byrddau a chadeiriau addas a mannau storio teganau ar lefel isel. Mae toiledau a chyfleusterau newid cewyn addas ar gael i'r plant ac maent yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Er bod y pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn gymharol newydd i'w rolau, mae ganddynt weledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer y lleoliad, sy'n seiliedig ar ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent yn canolbwyntio ar ddysgu trwy chwarae a sbarduno chwilfrydedd a mwynhad pob plentyn. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus sy'n cyfrannu'n dda at greu ethos gadarnhaol o fewn y lleoliad. Mae'r datganiad o ddiben yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth angenrheidiol i rieni.

Mae'r arweinwyr yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Maent yn parchu ac yn gwerthfawrogi gwaith yr holl ymarferwyr. Maent yn ystyried eu barn, yn eu cefnogi'n effeithiol ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae ganddynt weithdrefnau hunanwerthuso pwrpasol sy'n arwain at flaenoriaethau pwrpasol a thargedau priodol ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, maent yn adnabod yr angen i barhau i ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth ymarferwyr o'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro ar gyfer goruchwylio a gwerthuso perfformiad yr ymarferwyr wedi gwreiddio'n llawn hyd yma.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau yn ddoeth. Er enghraifft, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, ardal dan do a'r gegin fwd, sy'n hyrwyddo profiadau ysgogol a gwerthfawr i'r plant yn eu chwarae tu allan.

Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i wella'r ddarpariaeth a sicrhau amrediad cyfoethog o brofiadau ar gyfer y plant. Er enghraifft, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon, fel darparu lluniau o weithgareddau'r plant ar gyfryngau cymdeithasol diogel yn wythnosol.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth lwyddiannus â'r ysgol ac maent yn rhannu'r safle, adnoddau ac arbenigedd yn ddeallus. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfle i ymuno mewn nifer o weithgareddau a dathliadau'r ysgol ac yn cael mynychu sesiynau blasu yn nosbarth meithrin yr ysgol. O ganlyniad, mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg yn llyfn a didrafferth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 04 Gorffennaf 2024